

Dyddiad: 17 Ionawr 2001

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Cydymffurfio â Chontractau

## **Y Cwestiwn**

Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol roi ei farn ar y cwestiwn canlynol:

"A oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw bwerau i orfodi rhwymedigaethau cyfleoedd [cyfartal] yn erbyn ei gontractwyr a'i is-gontractwyr, ac os oes, pa bwerau ydyn nhw?"

## **Crynodeb o'r Casgliadau**

Mae ei farn wedi'i chrynhoi isod. Mae'n bwriadu bod yn bresennol yn y cyfarfod ar 17 Ionawr i gael siarad am y papur. Dyma oedd y casgliadau:

1. Nid asiantaeth orfodi yw'r Cynulliad ac felly ni all orfodi'r rhwymedigaethau cyflogwyr statudol sydd gan gontractwyr.
2. Mae amodau contract safonol y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gadw at eu rhwymedigaethau statudol, er enghraifft o dan ddeddfwriaeth cyfle cyfartal, deddfwriaeth cysylltiadau hiliol, deddfwriaeth tâl cyfartal ac ati, ac i indemnio'r Cynulliad yn erbyn unrhyw achosion o dorri'r rhwymedigaethau hynny gan y contractwyr. O ran theori, felly, fe allai'r Cynulliad ddwyn achos am dorri contract neu derfynu'r contract am fod y contractiwr wedi torri'r rhwymedigaethau neu unrhyw un ohonynt. Er hynny, heb ddyfarniad gan lys neu dribiwnlys o awdurdodaeth gymwys, sef achos na fyddai'r Cynulliad fel rheol yn cymryd rhan ynddo fel parti, dylai'r Cynulliad fod yn araf iawn i derfynu'r contract am fod un o'r telerau safonol wedi'i dorri. Byddai gwneud hynny yn peri anawsterau lawer i'r Cynulliad.
3. Hefyd, mae gan y Cynulliad ei briod rwymedigaethau ei hun mewn perthynas â chydraddoldeb (adrannau 48 a 120 o'r Ddeddf). Yn rhyfedd ddigon, mae'r rhain yn ffordd fwy effeithiol o sicrhau bod contractwyr yn mabwysiadu arferion cyflogi da ac yn cadw atynt ac yn enwedig felly drefniadau'r Cynulliad o dan adran 120 sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

4. Sylfaen y casgliad ym mharagraff 3 yw:

- (a) mae gan y Cynulliad bwerau eang i wneud contractau ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau;
- (b) mae ystod a nifer y cyrff unigol sy'n dymuno gwneud busnes gyda'r Cynulliad yn enfawr;
- (c) o ganlyniad i hynny, mae'r Cynulliad mewn sefyllfa gref i ddylanwadu ar y rhai sy'n dymuno cael eu gosod ar restrau tendro'r Cynulliad;
- (ch) ni all y Cynulliad osgoi ei gyfrifoldebau statudol drwy wneud contractau neu drefniadau ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud â chynnal ei fusnes a'i swyddogaethau (adran 41).
- (ch) yn sgil (ch), mae gan y Cynulliad fuddiant real iawn, yn wir dyletswydd, i sicrhau bod contractwyr yn cefnogi arferion da'r Cynulliad a'i drefniadau o dan adran 120 o'r Ddeddf ar gyfer sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

5. I wireddu'r amcanion a ddisgrifir ym mharagraff 3 uchod, byddai angen i'r Cynulliad:

- (a) gwneud trefniadau o dan adran 120 o'r Ddeddf sy'n cynnwys ystyried a oes gan dendrwy'r ar gyfer dyfarnu contractau bolisiau ar gyfer hybu cyfle cyfartal a chymryd absenoldeb polisi o'r fath i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid rhoi contract iddynt neu beidio;
- (b) drafftio darpariaethau priodol mewn contractau yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractiwr gydymffurfio â'r polisi cyfle cyfartal wrth gyflawni'r contract;
- (c) mabwysiadu polisi i'r perwyl y bydd y Cynulliad yn cefnogi busnesau sydd â chydwybod gydraddoldeb ac y bydd yn rhoi sylw i (a) uchod wrth ddethol contractwyr;
- (ch) cadarnhau nad oes dim byd yng ngweithdrefnau caffael y Cynulliad nac yn Rheoliadau'r UE ar Gaffaeliadau Cyhoeddus sy'n rhwystro 5(c) uchod.

Mae (a) a (b) ill dau yn gysylltiedig â swyddogaethau'r Cynulliad hy dethol contractiwr a phenderfynu ar delerau'r contract.

6. Gan hynny, cyhyd ag y bydd hynny'n gydnaws â'r rheoliadau a'r gweithdrefnau caffael ac yn gydnaws â'r pwynt y gellid dyfarnu bod polisi anhyblyg a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob tendrwr, gan gynnwys cwmnïau bach gael polisiau ffurfiol ar gyfle cyfartal yn afresymol yn ôl Wednesbury, barn y Cwnsler Cyffredinol yw y byddai'n gyfreithlon i'r Cynulliad fabwysiadu polisi o'r fath ond mae angen ystyried y pwynt ynghylch caffael ymhellach gyda'r adran bolisi a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol er mwyn sicrhau bod y polisi yn gydnaws..

7. Mae yna ddau bwynt sydd o'r pwys pennaf. Yn gyntaf, mae'r Cynulliad mewn sefyllfa arbennig o dda i ddylanwadu ar y rhai y mae'n gwneud busnes â hwy i fabwysiadu'r safonau hynny sy'n gymwys i'r Cynulliad wrth iddo gynnal ei fusnes ac arfer ei swyddogaethau. Gan fod y Cynulliad o dan ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal i bawb, mae'n rhesymol felly y bydd yn dymuno sicrhau cyn belled ag y mae'n rhesymol iddo fod y rhai y mae'n gwneud contractau gyda hwy mewn perthynas â'i fusnes a'i swyddogaethau yn mabwysiadu safonau tebyg. Fel arall, mae yna berygl y bydd y Cynulliad yn cael ei feirniadu am beidio â chydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol ei hun. Gan hynny, efallai yr hoffai ystyried mabwysiadu polisi sy'n gwahodd y rhai a allai ddymuno cael eu cynnwys ar ei restr dendro i lofnodi cynllun gwirfoddol ar gyfer hybu cydraddoldeb. Mae i'r dull hwn fwy o ddannedd a mwy o rinwedd nag achos gorfodi. Byddai cwmnïau na fyddent yn llofnodi'r cynllun yn sylweddoli y byddent yn colli busnes i'r rhai a fyddai'n ei lofnodi. Gallai'r Cynulliad roi rhybudd iechyd y gallai "lofnodi'r cynllun gwirfoddol fod o les difrifol i'ch busnes". Nid yw'n afresymol o gwbl i'r Cynulliad ddatgan yn gyhoeddus y bydd yn cefnogi busnesau sydd â chydwybod gydraddoldeb. Mae elw a chydaddoldeb yn mynd law yn llaw. Mae gwerth am arian yn golygu mwy na chyfrif costau yn unig.

**WINSTON RODDICK CF**

**Y CWNSLER CYFFREDINOL**

**12 IONAWR 2001**